Image not found or type unknown

Adnoddau iaith Gymraeg

Mwy o anoddau i'ch helpu

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 October 2024

Diweddariad olaf: 26 November 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle/welsh-language-resources am y fersiwn diweddaraf.

More resources to help you

Gwiriwr lefel iaith Cymraeg

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru bellach ddefnyddio rhaglen ar-lein am ddim i asesu eu sgiliau Cymraeg.

Rydyn ni wedi cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu 'Gwiriwr Lefel' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r Gwiriwr Lefel yn asesiad ar-lein i'ch helpu i ddarganfod lefel eich Cymraeg o ran sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Rydych chi'n cwblhau cyfres o asesiadau ar-lein, ac mae eich canlyniadau yn nodi lefel eich Cymraeg - o lefel mynediad hyd at hyfedredd.

Gall unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ddefnyddio'r Gwiriwr Lefel i asesu eu gallu yn y Gymraeg. Mae am ddim i'w ddefnyddio ac ar gael ar ffonau symudol, tabledi a chyfrifiaduron.

Gofal Cymdeithasol Cymru: Lefelau Iaith

Ar ôl cwblhau'r asesiad, y cam nesaf i rywun sydd â diddordeb mewn gloywi eu Cymraeg yw cofrestru ar un o'n cyrsiau Camau. Mae'r rhain wedi eu creu yn arbennig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, maent yn rhad ac am ddim ac yn cynnig dysgu hyblyg ar-lein.

Darganfod mwy am ein cyrsiau Camau

Adnoddau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant

- Mae'r Cyrsiau Camau yn gyrsiau Cymraeg Gwaith pwrpasol ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Mae'r adnoddau CWLWM yn gymorth ar gyfer cynnwys dysgu cyrsiau Camau.
- Nod addewid Cymraeg Clybiau (gyda chefnogaeth ymarferol Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs) yw cefnogi eich lleoliad o'r cam cyntaf (Efydd) drwodd i'r cam terfynol (Aur).

Apiau ar gyfer hyfforddiant

Mae Cymraeg Gwaith yn darparu cwrs ar-lein am ddim ar gyfer dechreuwyr sydd wedi'i deilwra ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal. Mae'n ymdrin â phynciau fel sut i gael sgwrs wyneb yn wyneb cychwynnol yn Gymraeg â'r bobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw.

Mae'r cwrs Camau | Dysgu Cymraeg yn gwrs hunan-astudiaeth, sy'n addas i ddechreuwyr ac sydd wedi'i hariannu'n llawn gan y Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol.

Mae Sgiliaith (Grwp Llandrillo Menai) yn cynnig cyngor ymarferol ar arfer da, hyfforddiant staff ac adnoddau, i wella sgiliau a phrofiadau dwyieithog dysgwyr.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn rhoi ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig astudio cyrsiau addysg uwch trwy gyfrwng Cymraeg. Mae ganddyn nhw adnoddau i gefnogi dysgwyr sydd â'r cymwysterau CCPLD a HSC newydd ac maen nhw'n cynnig cyrsiau 'Prentis-iaith' i brentisiaid sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Maen nhw'n galluogi prentisiaid i gwblhau rhan o'u cymhwyster HSC / CCPLD yn Gymraeg.

Mae cynllun Iaith Gwaith a’r bathodyn swigen oren yn dangos eich bod yn siarad Cymraeg.

Clwb Cwtsh

Mae Clwb Cwtsh yn adnodd sy’n cyflwyno geirfa Cymraeg i rieni a gofalwyr allu defnyddio gyda phlant.

- Gwyliwch fideo am Clwb Cwtsh ar sianel YouTube Mudiad Meithrin.

Apiau ar gyfer dysgu

Dyma rai Apiau Cymraeg atyniadol ar gyfer dysgu, sydd ar gael ar IOS ac Android.

- Beginners Welsh - wedi'i greu gan Brifysgol Aberystwyth
- Ap Gofalu Trwy'r Gymraeg.

Cyfieithu, prawfddarllen a therminoleg

Os ydych chi'n chwilio am wasanaeth cyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, ewch i wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i gael rhestr a'u manylion.

Dyma rai geiriaduron ar-lein Cymraeg i'ch helpu chi i ddysgu gwella'ch geirfa:

- Gweiadur
- Geiriadur yr Academi
- Geiriadur Prifysgol Cymru
- Geiriadur - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

- Y Termiadur Addysg.

Mae Termau yn borth terminoleg Saesneg i Gymraeg a Chymraeg i Saesneg.

Pecyn meddalwedd gyda dwy raglen yw Cysgliad. Mae'n cynnwys Cysill, sy'n nodi ac yn cywiro gwallau iaith yn eich dogfennau Cymraeg, a Cysgair sy'n eiriadur elecronig.

Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu a gwirio testun.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi casglu llawer o dermau sydd wedi cael eu defnyddio'n gyffredin yn ystod y pandemig ac wedi cynhyrchu geiriadur bach o dermau coronafeirws a ddefnyddir amlaf yn Gymraeg. Nod yr adnodd yw helpu siaradwyr i siarad ac ysgrifennu am y clefyd yn eu mamiaith.

Mentrau Iaith

Mentrau Iaith Cymru (MIC) yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith 22 o Mentrau Iaith lleol ledled Cymru.

Eu rôl yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith a diwylliant Cymraeg, trwy annog pobl i ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith a gallu ymarfer eu sgiliau iaith mewn amgylchedd cyfeillgar a chymdeithasol yn y gymuned.

Yr iaith Gymraeg - ymchwil, technoleg, dysgu a chefnogaeth

Canolfan Bedwyr yw canolfan gwasanaethau, ymchwil a thechnoleg Cymraeg Prifysgol Bangor.

Mae datblygu sgiliau iaith Cymraeg yn helpu i ddatblygu hyder myfyrwyr, staff a chyflogwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Crëwyd adnoddau enwau lleoedd i gynorthwyo i ddarganfod a gwirio bodolaeth enwau Cymraeg ar gyfer lleoedd Saesneg ac i'r gwrthwyneb.

Mae Technoleg lleferydd yn dechnoleg iaith lleferydd sydd â'r gallu i greu lleferydd dynol ac ymateb iddo (testun i leferydd a'i hadnabod)

Hyfforddiant

Sefydlwyd Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg i ddarparu hyfforddiant Cymraeg gyda chyfoeth o hyfforddiant ar gael ar-lein, cyrsiau byr, apiau a llawer mwy.

- 1000 o adnoddau digidol (pump lefel)
- Dysgwch Gymraeg mewn dim ond pum munud y dydd am ddim gyda Duolingo
- Dywedwch rywbeth yn Gymraeg
- Fideos YouTube
- Rhaglen hyblyg wedi'i hariannu sydd wedi'i chynllunio i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle yw Work Welsh
- Cefnogaeth i Gyflogwyr − sut i archwilio sgiliau, cyrsiau sydd ar gael, canlyniadau disgwyliedig ac ati.

Sefydliadau arall

Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn darparu profiadau chwarae a dysgu i blant o'u genedigaeth hyd at oedran ysgol.

- Gwyliwch y fideo 'Pwy yw Mudiad Meithrin' ar ei sianel YouTube i ddarganfod mwy.

Tudalen YouTube Mudiad Meithrin

Mae tudalen YouTube Mudiad Meithrin yn cynnwys amryw o adnoddau Cymraeg.

Bwletin rhithwir ar gyfer adnoddau Cymraeg

Mae hysbysfwrdd rhithwir adnoddau Cymraeg ar gael ar Padlet.com sy'n cynnwys adnoddau hyfforddi, adnoddau i ddysgwyr, gweithgareddau, apiau, cerddoriaeth, swyddi a llawer iawn mwy i'ch cefnogi chi i ddysgu a datblygu eich sgiliau Cymraeg.

Adnoddau addysgol

OpenLearn Cymru: Cartref dysgu dwyieithog, am ddim yng Nghymru – adnodd i unrhyw un sy'n dymuno gwybod mwy am gymdeithas a diwylliant Cymru ac mae'n dwyn ynghyd gasgliad o adnoddau addysgol am ddim sy'n berthnasol i Gymru.

Cysylltu â ni

Os oes gennych chi gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, cysylltwch â ni.